



# Wyddoch chi?

Mae'r cynllun gweithgaredd hwn yn amlygu pwysigrwydd rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ganolbwyntio ar faint o wastraff a gynhyrchwn, a phwysleisio pwysigrwydd ailgylchu a'r effaith y gall gwaredu amhriodol ei gael ar yr amgylchedd, ar gymunedau ac ar yr economi.



Pwrpas Cyfoeth Naturiol Cymru yw mynd ati i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu gofalu am aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd i wella lles Cymru, a darparu gwell dyfodol i bawb.

## Amcanion

Erbyn diwedd y gweithgaredd hwn, bydd y dysgwyr yn gallu:

- Dwyn i gof ffeithiau a ffigurau sy'n ymwneud ag effaith sbwriel a thipio anghyfreithlon.
- Trafod problemau mawr o ddeunyddiau'n cael eu gwastraffu, heb gael eu hailddefnyddio.
- Trafod atebion i rai o'r problemau a godwyd a gwneud awgrymiadau ar yr hyn y gallant ei wneud fel unigolion.

## Hyd y sesiwn

15 munud

## Maes Cwricwlwm

ADCDF  
Daearyddiaeth

## Lleoliad

Unrhyw le



# Cysylltiadau â'r cwricwlwm

## CA2 ADCDF

### Defnyddio a gwastraffu

O ble y mae'r pethau y mae pobl yn eu defnyddio yn dod ac i ble maen nhw'n mynd  
Gall gwastraff achosi llygredd

## CA2 Daeryddiaeth

### Astudiaeth

Byw yn fy mynd: gofalu am leoedd ac amgylcheddau  
a phwysigrwydd bod yn ddinesydd byd-eang

## CA3 ADCDF

### Defnyddio a gwastraffu

Datblygu ymdeimlad o gyfrifoldeb dros ddatblygiad cynaliadwy  
Gwerthfawrogi'r camau sydd eu hangen i leihau eu hól-troed ecolegol eu hunain ac i leihau gwastraff

## CA3 Daeryddiaeth

### Astudiaeth

Dinasyddion yfory: materion yng Nghymru a'r byd ehangach sy'n ymwneud â byw mewn modd cynaliadwy a chyfrifoldebau bod yn ddinesydd byd-eang

## Offer ac Adnoddau

- Marcwyr A, B a C (gallant gael eu creu drwy ysgrifennu ar gerdyn neu eu hysgrifennu ar y llawr mewn sialc)

## Beth i'w wneud

Darganfod lleoliad addas i'r marcwyr A, B a C e.e. labeli 3 choeden.

Gan ddefnyddio'r cwestiynau isod, gadewch i'r dysgwyr ystyried pa ateb sy'n gywir ac yna sefyll ar bwys y llythyren briodol.

Unwaith bydd y dewis wedi'i gwblhau, rhowch yr ateb cywir a rhowch amser i drafod.

- Beth yw'r uchafswm o ran dirwy ar gyfer tipio anghyfreithlon?  
A - £100  
B - £5000  
C - £50,000 - **cywir, a charchar o bosib**
- Beth oedd y gost i'r trethdalwr ar gyfer clirio gwastraff wedi'i dipio'n anghyfreithlon yng Nghymru yn 2012/13?  
A - £1/2 Miliwn  
B - £2 Miliwn - **cywir**  
C - £5 Miliwn
- Mewn canran, faint o wastraff cyfarpar trydanol sy'n cael eu taflu i ffwrdd a allai cael eu hail-ddefnyddio (mae hyn yn cynnwys ffonau symudol, gliniaduron ac ati)?  
A - 10%  
B - 25% - **cywir, gall y rhain gael eu hail-ddefnyddio a bod yn werth tua £200 miliwn y flwyddyn**  
C - 50%
- Rydym yn defnyddio oddeutu 725,000 o boteli plastig y dydd yng Nghymru, tua faint o'r rhain sy'n cael eu hailgylchu?  
A - 50% - **cywir, dim ond hanner ohonynt sy'n cael eu hailgylchu. Mae'n cymryd 75% yn llai o egni i greu potel blastig allan o ddeunydd wedi'i ailgylchu na defnyddio deunyddiau crai**  
B - 75%  
C - 100%
- Yng Nghymru, faint o fysiau deulawr y gallem ni eu llenwi gyda'r gwastraff bwyd a gynhyrchwn mewn blwyddyn?  
A - 500  
B - 1000  
C - 10,000 - **cywir, a dweud y gwir, 10,236 sy'n gywir (tua 220,000 tunnell) a gellid bwyta'r rhan fwyaf ohono. Gallai'r cartref cyffredin arbed tua £700 ar eu bil bwyd blynyddol drwy daflu llai i ffwrdd.**
- Faint o ganiau alwminiwm sy'n cael eu hailgylchu yn y DU bob blwyddyn?  
A - 350, 000  
B - 3.5 Miliwn  
C - 3.5 Biliwn - **cywir - pe bai'r caniau yma wedi'u gosod mewn rhes, byddai'n ddigon i ymestyn o gwmpas y byd 10 gwaith!**
- Pa mor hir y mae'n cymryd i fag blastig i dorri i lawr?  
A - Blwyddyn  
B - 20 mlynedd - **cywir**  
C - 500 mlynedd
- Pa ganran o'r sbwriel a geir yn y cefnfor a amcangyfrifir ei fod yn blastig?  
A - 70%  
B - 90% - **cywir**  
C - 100%

Ar ôl i'r gêm gael ei chwarae, ceisiwch weld faint y gall y grŵp ei gofio. Dewiswch un neu ddau o ffeithiau i'w trafod yn fwy manwl. Meddyliwch am atebion yn fyd-eang ac yn lleol a phethau y gallant eu gwneud fel unigolion i leihau'r effaith neu helpu i leihau problemau.

## Awgrymiadau am gwestiynau allweddol

- Sut allech chi leihau maint y gwastraff yr ydych yn ei gynhyrchu?
- Beth allwn ni ei wneud i geisio annog pobl i ailgylchu mwy?

## Addasu ar gyfer wahanol anghenion a galluoedd

Llai abl:

- Dewiswch gwestiynau priodol ar gyfer y grŵp.

Mwy abl:

- Gofynnwch i unigolion i amcangyfrif yr atebion cyn rhoi opsiynau lluosog o ddewis.

## Gweithgaredd dilynol/ykestyn

Ymchwilio i le mae ein gwastraff yn mynd.

Ymchwilio i ffeithiau a ffigurau pellach o'n gwastraff, a chreu cwestiynau a'u hatebion eu hunain er mwyn eu gofyn i weddill y grŵp.

Cynhyrchu ymgyrch i annog eraill i leihau, aildddefnyddio ac ailgylchu eu gwastraff.

Gweithgareddau gwastraff eraill, gweler gweithgareddau gwastraff eraill am:

- *Sbwriel hirhoedlog*
- *Toriadau papur newydd*
- *Dal tipiwr anghyfreithlon*
- *Y 3 C o sbwriel a thipio anghyfreithlon*

## Gwybodaeth ychwanegol

Gellir gweld ffeithiau a ffigurau a ddefnyddiwyd, yn ogystal â gwybodaeth ychwanegol, ar y gwefannau isod:

[recycleforwales.org.uk](http://recycleforwales.org.uk)

[flytippingactionwales.org](http://flytippingactionwales.org)

[wrap.org.uk](http://wrap.org.uk)

[recyclenow.com](http://recyclenow.com)

[science.howstuffworks.com/environmental/earth/oceanography/great-pacific-garbage-patch.htm](http://science.howstuffworks.com/environmental/earth/oceanography/great-pacific-garbage-patch.htm)

[www.mass.gov/eea/docs/czm/coastsweep/pocket-guide-2003.pdf](http://www.mass.gov/eea/docs/czm/coastsweep/pocket-guide-2003.pdf)



Os oes arnoch angen y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall, er enghraifft, mewn print bras neu mewn iaith arall, cysylltwch ag: [ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) **0300 065 3000**

[www.cyfoethnaturiol.cymru](http://www.cyfoethnaturiol.cymru)



Mae coetiroedd Llywodraeth Cymru wedi'u hardystio'n unol â rheolau'r Forest Stewardship Council®. Welsh Government woodlands have been certified in accordance with the rules of the Forest Stewardship Council®.



Angraffwyd ar bapur Revive Offset wedi'i ailgylchu 100%. Printed on Revive offset 100% recycled paper.